

Llais Gwirfoddol Cylchlythyr

Rhifyn 3 2018
www.flvc.org.uk

Yr Athro Maria Henfelaar;
Is-ganghellor Prifysgol Glyndŵr
a Marjorie Thomson, Cadeirydd
FLVC yn arwyddo Memorandwm
Dealltwriaeth er mwyn cysylltu
gwirfoddoli a dysgu gydol oes.



*Cefnogi, Hyrwyddo a
Datblygu Gwaith
Gwirfoddol a Chymunedol*



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**
Third Sector
Support **Wales**

FLVC
Flintshire Local Voluntary Council
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint

- 2 Yn y Rhifyn Hwn
- 3 Newyddion FLVC
- 5 Newyddion Cymunedol
- 7 Digwyddiadau a Hyfforddiant
- 8 Ariannu
- 10 Gwirfoddoli
- 12 Llywodraethu Da

*Gallwch fod
yn rhan o'r
cylchlythyr hefyd!*

Os hoffech gyfrannu erthygl i rifyn nesaf Llais Gwirfoddol yna eboatiwch eich erthygl atom:
Jane Hewson, Swyddog Cyfathrebu, Corlan,
Parc Business yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XP
info@flvc.org.uk
01352 744000

Fuasech chi'n fodlon derby nein newyddlen Llais Gwirfoddol ar e-bost ?

Bu inni anfon arolwg at ein hapddalwyr yn ddiweddar a bu i dros 80% o'r ymatebwyr ddatgan y byddan nhw'n fodlon derbyn y ddogfen hon ar-lein.

Bydd copiau wedi eu hargraffu ar gael bob amser ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnig copiau called. Fodd bynnag, os hoffech chi ein helpu i leihau costau a gofalu am yr amgylchedd ac os ydych yn fodlon bwrw golwg ar y newyddlen ar-lein, gofynnwn yn garedig ichi gysylltu gyda Jane Hewson, y Swyddog Cyfathrebu, e-bost jane.hewson@flvc.org.uk



Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)

Ein Gweledigaeth:

Gweledigaeth FLVC yw sector gwirfoddol a chymunedol cryf, cynaliadwy ac effeithiol, sy'n cynnwys pobl ac yn gwasanaethu pobl Sir y Fflint.

Ein Cenhadaeth:

Cenhadaeth FLVC yw cefnogi, datblygu a hyrwyddo gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint a chryfhau galu gwrpiau gwirfoddol a chymunedol I gyfrannu at ansawdd bywyd pobl a chymunedau Sir y Fflint.

Croeso i chi i rifyn diweddaraf Llais Gwirfoddol.

Cyfarfod Blynyddol

Diolch yn fawr iawn i bawb ddaeth i'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi. Bu inni fyfrio ar ein cynnydd yn ystod 2017/18 ac edrych ymlaen at 2019. Yn y Cyfarfod Blynyddol bu inni arwyddo Memorandwm Dealltwriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr er mwyn cydnabod yn ffurfiol ein hymrwymiad i fwyafu cysylltiadau rhwng dysgu gydol oes a gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol. Yn ychwanegol at fwyafu cyfleoedd i ddysgwyr ennill gwaith a sgiliau bywyd drwy weithgareddau cymunedol, rydym ni hefyd yn awyddus i hyrwyddo cyfleoedd gwaith yn y trydydd sector.



Cyng. Paul Cunningham, Cadeirydd Cyngor Sir y Fflint, yn agor yr 21ain Cyfarfod Blynyddol i FLVC

Croeso cynnes a diolch yn fawr iawn i Ymddiriedolwyr FLVC sydd wedi'u penodi ar gyfer 2018/19, yn arbennig ein Cadeirydd newydd, Paul Hinchliffe. Gair o ddiolch i'n Cadeirydd sy'n ymddeol, Marjorie Thomson, sydd wedi arwain y mudiad dros y tair blynedd ddiwethaf ac sy'n parhau yn ymddiriedolwr i'r mudiad.

Fel rhan o bob Cyfarfod Blynyddol, mae FLVC yn cyflwyno Gwobr Tom Jones i berson ifanc sydd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w cymuned trwy waith gwirfoddol.

Mae FLVC yn cyflwyno'r wobwr hon mewn parch tuag at y diweddar Tom Jones OBE, fu'n Gynghorydd Cymuned a Chynghorydd Sir y Fflint am flynyddoedd maith, yn Llywodraethwr Ysgol ac yn Ymddiriedolwr a Sylfaenydd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint. Enillydd Gwobr Tom Jones yn 2018 ydy Chloe-Ann Brooks - mwy o fanylion ar dudalen 10.

Grŵp Partneriaeth Trydydd Sector

Mae hi'n bleser gen i gyhoeddi fod FLVC wedi datblygu Grŵp Partneriaeth Trydydd Sector i ychwanegu at ein ffordd bresennol o gysylltu gyda, ac ar ran, y trydydd sector. Yn unol â'r gwaith yng Nghynllun Lles Sir y Fflint, byddwn ni'n edrych ar strategaethau a chynlluniau allweddol er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y meysydd canlynol:

- Diogelwch y Gymuned
- Economi a Sgiliau
- Yr Amgylchedd
- Byw yn Iach ac yn Annibynnol
- Cymunedau Gwydn

ac yn llunio ymateb trefnus a gwybodus gan y trydydd sector. Yn y cyfarfod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Hydref, bu i'r holl aelodau oedd yn bresennol groesawu'r cyfle hwn i gynyddu'r cysylltiad ac ymgynghori gyda'r trydydd sector ynghylch prif raglenni gwaith.

Cofion gorau,

Prif Swyddog
01352 744028

ann.woods@flvc.org.uk



Ymddiriedolwyr FLVC yng Nghyfarfod Blynyddol Cyffredinol 2018

	Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddol	Rhwydwaith Lles N.E.W.	Rhwydwaith Ymddiriedolwyr	Rhwydwaith / Digwyddiad Blynnyddol
Ionawr	14eg o Ionawr 2019 9.30yb-12.00yp Corlan 31ain o Ionawr 2019 9.30yb-12.30yp Llyfrgell Y Fflint Diwrnod Recriwtio a Rhannu Gwybodaeth gyda Gwirfoddolwyr	10fed o Ionawr 2019 9.30yb-12.00yp		
Chwefror				
Mawrth		14eg o Fawrth 2019 9.30yb-12.00yp	19eg o Fawrth Cwrdd â'r Noddwr	
Ebrill	8fed o Ebrill 2019 9.30yb-12.00yp Lleoliad i'w gadarnhau		9fed o Ebrill Rhwydwaith Gwybodaeth Ymddiriedolwyr	
Mai	Date TBC Diwrnod Gwybodaeth a Recriwtio Gwirfoddoli, Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy	9fed o Fai 2019 9.30yb-12.00yp		
Mehefin			Dyddiad i'w Gadarnhau Cwrdd â'r Noddwr	
	I gadw lle mewn Digwyddiad Trefnwyr Gwirfoddol cysylltwch gyda Jan Owen ar 01352 744017	I gadw lle mewn Digwyddiad Lles cysylltwch gyda Karen Peters ar 01352 744015	I gadw lle mewn Digwyddiad Ymddiriedolwyr cysylltwch gyda Shaun Darlington ar 01352 744027	I gadw lle mewn Digwyddiad Blynnyddol cysylltwch gyda Jane Hewson ar 01352 744030

CEFNOGI TRYDYDD SECTOR CYMRU

Er mwyn cyflawni'r nod hwn rydym wedi cydweithio i ddatblygu dwy gronfa ddata (y Cronfeydd Data). Mae'r naill yn system Rheoli Cysylltiadau Cleientiaid (CRM) y gallwn ei defnyddio i storio manylion y mudiadau yr ydym yn gweithio gyda nhw ac i gofnodi unrhyw ryngweithiadau rhwng aelodau o Cefnogi Trydydd Sector Cymru a'r mudiadau hyn. Gallwn hefyd gofnodi manylion cyswllt pobl sydd â diddordeb yn ein gwaith, boed hynny fel unigolion neu ar ran eu mudiadau a defnyddio'r system CRM i reoli ein gweithgareddau cyfathrebu â nhw. System Rheoli Gwirfoddolwyr yw'r llall sy'n galluogi Cefnogi Trydydd Sector Cymru i hwyluso'r broses o

gysylltu'r rheini sydd eisiau gwirfoddoli â'r mudiadau trydydd sector sydd angen gwirfoddolwyr mewn ffordd sy'n gwella'r profiad gwirfoddoli a'r broses rheoli gwirfoddolwyr. Mae'r cronfeydd data hyn ar wahân, ond maent wedi'u cysylltu â'i gilydd. Ni fyddwn yn storio'ch gwybodaeth bersonol yn y cronfeydd data ond pan allwn wneud hynny'n gyfreithlon. Mae'ch hawliau preifatrwydd wedi'u diogelu gan nad yw'r Cronfeydd Data ond yn storio gwybodaeth sylfaenol amdanoch, ceir protocol llym ar gyfer pwy all gael at eich gwybodaeth bersonol ac mae gennych y gallu i reoli'ch dewisiadau cyfathrebu. Byddwn yn anfon gwybodaeth bellach atoch yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, peidiwch ag oedi rhag cysylltu gyda ni os oes gennych chi unrhyw ymholiadau:

**tel 01352 744000 neu
e-bost info@flvc.org.uk neu
neu ewch i'n gwefan www.flvc.org.uk/**

Cymdeithas Cludiant Cymunedol - Gwirfoddolwyr yn Eisiau!

Cysylltu Cymunedau Cymru

- Byddwch yn rhan o fudiad sy'n gwneud gwahaniaeth yn eich cymuned!
- Grymuswch bobl leol a brwydro yn erbyn ymdeimlad o unigedd a bod ar wahân.
- Gweithiwch gyda phobl â'r un meddylfryd sy'n credu dylai bod gan bawb fynediad at gludiant fforddiadwy a chynhwysol!

Os hoffech chi wirfoddoli gyda'ch darparwr cludiant cymunedol lleol fel gyrrwr, cynorthwydd teithio, cyfaill teithio, gweinyddwr neu ymddiriedolwr, yna gall Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru eich rhoi chi mewn cysylltiad.

Anfonwch e-bost at johne@ctauk.org neu ffoniwch 01792 844 290



DIWEDDARIAD GAN DEWIS CYMRU - GWEFAN CENEDLAETHOL AR LES I BOBL CYMRU

Mae tair blynedd wedi bod ers i Dewis fynd yn fyw am y tro cyntaf yng ngogledd Cymru. Ers i'r wefan fynd yn fyw, mae Dewis Cymru wedi gweld cynnydd graddol yn yr holl brif fesurau defnyddio. Erbyn hyn mae gennym ni dros 6,500 o adnoddau o'i gymharu gyda 240 ym mis Medi 2015.

Ar gyfartaledd, mae 65,000 o ymweliadau i'r wefan bob mis, ac ym mis Gorffennaf 2018 bu i'r wefan ddarparu bron i 15 miliwn o wasanaethau trwy ganlyniadau chwilio yng Nghymru. Ym mis Medi 2015, roedd 334 o ddefnyddwyr wedi'u cofrestru ar y wefan, erbyn mis Gorffennaf 2018 roedd dros 5,000

Rydym ni hefyd wedi lansio fideo hyrwyddol cenedlaethol newydd sydd ar gael ar YouTube <https://www.youtube.com/watch?v=9I7bZRzUtlg> a Gwylwch y fideo a chofiwch ei rannu gymaint gymaint a gallwch chi.

Rydym ni'n falch o allu cyhoeddi bod datblygiadau technegol sy'n caniatáu rhannu gwybodaeth am wasanaethau a mudiadau trydydd sector perthnasol rhwng Infoengine a Dewis Cymru bellach ar waith. Mae Infoengine yn gyfeirlyfr ar-lein o wasanaethau trydydd sector yng Nghymru. Caiff ei ddarparu a'i



Dewis Cymru
Have choice and take control

infoengine

gefnogi gan Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru, partneriaeth o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae dros 4,000 o wasanaethau gaiff eu cynnig gan fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol ac mae'r ffigwr hwn yn cynyddu'n ddyddiol.

Mae gwefan Dewis Cymru eisoes yn cynnwys cyfeirlyfr adnoddau gyda dros 6,000 o fudiadau a gwasanaethau lleol a chenedlaethol gan gynnwys awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol, mudiadau gwirfoddol a busnesau. Mae Infoengine yn ychwanegu at hyn gyfres gynhwysfawr o wybodaeth am wasanaethau trydydd sector gan ei wneud yn ffynhonnell unigryw o wybodaeth i'w defnyddio ar draws Cymru.

Dilynwch ni neu hoffwch ni ar Twitter a Facebook. Fe wnawn ni eich dilyn chi'n ôl.

www.facebook.com/dewiswales
www.twitter.com/dewiswales

Noson Allan / Night Out

Ydych chi'n grŵp cymunedol yng Nghymru fyddai'n hoffi cynnal sioe broffesiynol yn eich ardal chi?

Mae cynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdodau lleol i helpu grwpiau o wirfoddolwyr ar draws Cymru i ddod â chelfyddydau wrth wraidd eu cymunedau. Gall grwpiau cymunedol ddewis o lawer iawn o berfformiadau proffesiynol gwych a'u cynnal mewn neuaddau pentref a lleoliadau eraill llai traddodiadol ar draws y wlad. Os hoffech chi fwy o wybodaeth ynglŷn â sut mae'r cynllun yn gweithio, ewch i www.nightout.org.uk
Bob blwyddyn, caiff tua 600 o sioeau eu harchebu trwy'r cynllun gan bron i 350 o

wahanol grwpiau cymunedol. Ynghyd â'r prif gynllun, rydym ni hefyd yn rhedeg cynllun Noson Allan Fach sy'n cynnig sioeau bach i fudiadau gaiff eu harwain gan yr aelodau, er enghraifft, Sefydliad y Merched neu Merched y Wawr.

Yn gweithio mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol Cymru, mae tîm Noson Allan yn gweithredu ernes yn erbyn colledion ar gyfer digwyddiadau lle rydym ni'n talu'r ffi perfformio ac mae'r hyrwyddwr cymunedol yn talu'n ôl unrhyw incwm o werthiant tocynnau wrth y drws.

Dydyn ni byth yn cymryd mwy na'r costau perfformio felly fel hyrwyddwr, fyddwch chi byth dim gwaeth drwy ddefnyddio ein cynllun. Y mwyaf o arian bydd hyrwyddwyr yn ei wneud yn ôl, y mwyaf o arian sydd gennym ni i allu cymeradwyo ceisiadau eraill.

Ers 1980 mae Noson Allan wedi gweithio gyda channoedd o leoliadau cymunedol yn eu galluogi i hyrwyddo dros 11,000 o berfformiadau ledled Cymru.

Mae Noson Allan yn helpu drwy diddymu'r perygl ariannol. Mae'r broses yn syml a hawdd a gallwn ddarparu cyllid a thocynnau, ynghyd â chymorth ymarferol a chyngor, yn ogystal â llawer o argymhellion ar amrywiaeth enfawr o sioeau ar gyfer pob oedran o theatr a cherddoriaeth i ddawns a phypedau.

Y broses - yn syml:

- Cysylltwch â'r perfformiwr a lled gytuno ar ddyddiad.
- Ymgeisiwch i Noson Allan, ar-lein neu lenwch ffurflen archebu syml, o leiaf pedair wythnos cyn y digwyddiad - neu'n gynt os yn bosib.
- Noson Allan fydd yn talu ffi'r perfformiwr. Cewch y sioe am ffi lai ac mae modd gofyn i'ch awdurdod lleol warantu'r gost. Felly ni fyddwch ar eich colled.
- Cynhaliwch y digwyddiad, rhwng bosteri i fyny a hyrwyddwch y sioe yn eich cymuned, mwynhewch ac adroddwch yn ôl inni wedyn gan dalu'n ôl inni incwm y tocynnau a wnaethoch (hyd at fwyafswm o ffi'r perfformiwr).

Cyswllt: 029 2044 1340
www.nosonallan.org.uk | yhmoliadau@nosonallan.org.uk

"Rwy'n caru Noson Allan. Byddai ein cymuned yn ddiflas hebddi."

Neuadd Goffa Trefdraeth, Sir Benfro

Mae Noson Allan yn rhan o Gyngor Celfyddydau Cymru a gweithia mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gefnogi perfformiadau proffesiynol o safon mewn ardaloedd sydd heb fawr o hygyrchedd i'r celfyddydau. Mae'n cynorthwyo a chynghori cwmnïau a pherfformwyr, ac yn annog datblygiad cymunedol a sbarduno'r economi leol.

Aberdyfi (llun: Keith Morris)

"Roedd y perfformiad hwn yn fodd i ddod â'r gymuned at ei gilydd, bu'r plant yn chwarae ac roeddent yn dwlu ar y sioe a theimlai pawb yn falch o gynnal digwyddiad mor hyfryd. Rydym yn lled ynysig yma ac nid oes fawr o berfformiadau byw yn lleol felly mae'n wych cael rhywbeth mor agos."

Griip Rhieni a Phlant Bach Llanbedr Castell-paen a Rhos-goch

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Manylion Cyswllt 02920 441 340

www.nightout.org.uk

enquiry@nightout.org.uk

Hyfforddiant i Ymddiriedolwyr

Mae hyn i hysbysu pawb sydd â chyfrifoldeb dros redeg mudiadau trydydd sector bod John Gray, Swyddog Gwybodaeth a Chyngor Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, ar gael i grwpiau o ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr gysylltu ag o er mwyn darparu hyfforddiant llywodraethu sy'n benodol i'w anghenion nhw.

John Gray on: 01352 744005 neu at: john.gray@flvc.org.uk

Dyddiad i'ch dyddiadur

**Dydd Mawrth 19eg o Fawrth 2019
10yb tan hanner dydd**

Cewch gwrdd â chynrychiolwyr o:

- Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi
- Busnes Cymru - deall y broses e-dendro
- Grow Wild

Mae'n rhaid cadw lle o flaen llaw:

Cysylltwch a Heather Hicks ar heather.hicks@flvc.org.uk

PARKINSONS UK
CHANGE ATTITUDES.
FIND A CURE.
JOIN US

PARKINSONS UK - GRŴP CEFNOGI SIR Y FFLINT YMUNWCH Â NI

Dyddiad Cyfarfod : Dydd Iau olaf y mis - heblaw am Awst a Rhagfyr (yn aml gyda siaradwr gwadd)

Amser : 11.30 am - 12.30pm gyda bisgedi, coffi neu de

Lleoliad : Canolfan Gymunedol Mynydd Isa, CH7 6UH (âan ganolfan siopa a llyfrgell y Mercia Square) yn hawdd ei gyrraedd ac ar lwybr bysiau

Dosbarthiadau Tai Chi : Cynhelir ymarferion poblogaidd Tai Chi ddydd Iau, 10.30-11.30 y bore. Sesiwn Tai Chi Chuan ar ddydd Mawrth 11.30-12.30 pm Mae'r rhain yn cael eu harwain gan arbenigwr Peter Newton

Boccia : Ffurflen o bowlenni dan do, yn eistedd, yn hwyl fawr. Dydd Gwener 1.00-3.00 pm

Bowlio Gwyrdd y Goron : Bob ddydd Gwener, 2.00-4.00 pm yng Nghanolfan Gymunedol New Brighton, Bowlio Gwyrdd

Caffi Parkinson : Dydd Mawrth 10.00 am - 12.00 heb fod

Grŵp gofalwyr : Dydd Mercher 11.00 am ym Ngwesty'r Parc Beaufort, New Brighton

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: [Alfred Jones \(Cydllynydd Grŵp\)](mailto:Alfred.Jones@flvc.org.uk) 01352 730539 neu 07815 196791

NODWEDDAU NEWID. DARLLENWCH CWR. YMUNWCH Â'R UDA

NEWCIS - Heulwen a Hapusrwydd

Dysgwch i chwerthin unwaith eto

10fed ac 17eg o Ionawr 2019 am 10yb (cwrs deuddydd) - NEWCIS, Ffordd Newydd, Yr Wyddgrug Mae'r gweithdy deuddydd hwn yn canolbwyntio ar sut gall gofalwyr ddeall yn well sut i ddefnyddio chwerthin fel strategaeth hynod werthfawr i reoli

tyndra. Mae'n canolbwyntio ar ddod â chymysgedd cyfoethog o heulwen a hapusrwydd i'ch bywyd a darganfod eich potensial sydd heb ei wireddu o chwerthin a gwenu tra'n ymdopi gyda heriau bob dydd fel gofalwr. Am ddim i bob gofalwr cofrestredig yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Cadwch eich lle drwy ein ffonio ni **ar 01352 752525.**

Cronfa Datblygu Asedau Cymunedol

are Mae hi'n bleser gan WCVA, WEFO a Llywodraeth Cymru gyhoeddi nid yn unig £1.5 miliwn ychwanegol i'w ddosbarthu trwy Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol, ond hefyd, llinyn cwbl newydd o arian gwerth £1.2 miliwn am Gronfa Datblygu Asedau Cymunedol newydd er mwyn cefnogi busnesau cymdeithasol sy'n awyddus i ymgymryd ag neu gynyddu eu hasedau cymunedol. Am fwy o wybodaeth am y gronfa a sut gall mudiadau ymgeisio, cysylltwch gyda Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach drwy

e-bost sic@wcva.org.uk neu ffonio 0300 111 0124.

{Ffynhonnell: Busnes Cymru}

.....

Ymddiriedolaeth Gristnogol Marsh

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio cefnogi elusennau cofrestredig bychan trwy nawdd craidd hir dymor, er mwyn eu cynorthwyo gyda gweithgareddau parhaus. Mae gweithgareddau cymwys yn cynnwys; lles cymdeithasol, achosion amgylcheddol, addysg a hyfforddiant ac iechyd.

Mae grantiau yn amrywio o £300 - £1,500 gyda cheisiadau newydd ar ben isaf y raddfa. Mae'r ymddiriedolwyr yn dymuno bod yn rhan o gefnogaeth hir dymor, drwy roi arian rheolaidd yn flynyddol yn amodol ar ailgyflwyniad ac adolygiad blynyddol.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth

www.marshchristiantrust.org

MARSH

Christian Trust

Rhwydwaith Gwybodaeth i Ymddiriedolwyr (TIN)

Daeth dros 50 o gynrychiolwyr mudiadau i'r digwyddiad TIN diwethaf yn Neuadd Goffa Trelawnyd. Y thema ar gyfer y digwyddiad hwn oedd 'Nawdd' a bu i gynrychiolwyr o Gronfa'r Loteri Fawr, Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr, Cist Gymunedol Chwaraeon Cymru a Cadwyn Clwyd ddefnyddio'r achlysur hwn i sôn am eu gwahanol gronfeydd grantiau mewn neuadd lawn. Roedd hi'n wych cael gweld faint o rwydweithio bu wedyn gyda'u cyfoedion a'u panelwyr.

Am fwy o wybodaeth am y digwyddiad nesaf, cysylltwch gyda'r Tîm Nawdd a Llywodraethu ar **01352 744027**. Fe allwch chi hefyd danystrifio i dderbyn ein bwletin diweddar am newyddion am ffynonellau arian eraill, digwyddiadau a chanllawiau perthnasol trwy anfon e-bost at

info@flvc.org.uk



Geiriad lluniau: Adam Bishop (Cadwyn Clwyd), Lynn Smith (Cronfa'r Loteri Fawr), Neil Pringle (Gwynt-y-Môr)

Enw newydd i'r Loteri Fawr a hunaniaeth weledol i'r Gronfa. O ddiwedd mis Ionawr 2019 ymlaen caiff ei hadnabod fel: Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

PENODI SWYDDOG CYLLID NEWYDD

Heather Hicks ydy Swyddog Cyllid newydd FLVC. Mae ganddi doreth o brofiad yn y maes ac wedi bod yn rhoi cyngor a chefnogaeth ariannol i grwpiau cymunedol, elusennau a mentrau cymdeithasol yn Wrecsam ers 2005. Dros y blynyddoedd, mae Heather wedi trefnu nifer o Ffeiriau'r Noddwyr, gweithdai a chymorthfeydd cyllid gan fod y rhain yn ffyrdd buddiol iawn o brofi syniadau posibl a chael cefnogaeth cyn-ymgeisio. Mae hi hefyd wedi darparu hyfforddiant ar sut mae cael gafael ar arian grant, codi arian yn y gymuned, a gwahanol bynciau yn ymwneud â gallu ariannol. Mae Heather yn edrych ymlaen at ddefnyddio ei sgiliau a'i phrofiadau i helpu grwpiau cymunedol yn Sir y Fflint.

I gysylltu gyda Heather ffoniwch 01352 744004 neu anfonwch e-bost at heather.hicks@flvc.org.uk



Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Mae Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn darparu grantiau i helpu cymunedau sy'n byw 5 milltir o orsafoedd trosglwyddo gwastraff neu safleoedd tirlenwi penodol. Bydd grantiau rhwng £5,000 a £49,000 ar gael i brosiectau sy'n cwrdd â meini prawf y cynllun.

Bioamrywiaeth:



- Gwellu amodau i helpu rhywogaethau brodorol, pryfed peillio a darparu cyfleoedd i blannu o'r newydd
- Adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol
- Cefnogi, cysylltu, deall a bod yn rhan o wreiddio bioamrywiaeth

Lleihau Gwastraff a Dargyfeirio Gwastraff o Safleoedd Tirlenwi



- Annog pobl i osgoi, aildddefnyddio, adfer ac ailgylchu gwastraff
- Lleihau gwastraff bwyd a chefnogi mentrau tebyg i gompostio
- Cysylltu gyda a chefnogi dealltwriaeth er mwyn i bobl weld gwastraff fel adnodd

Gwelliannau Amgylcheddol Mwy Gwyllt:



- Creu ardaloedd gwyrdd cymunedol a chefnogi isadeiledd gwyrdd
- Adfer ardaloedd sydd wedi'u hesgeuluso a dirywio fel bod modd i'r gymuned eu defnyddio eto
- Cynnal neu wella cyfleusterau cymunedol, er enghraifft,

Cysylltwch gyda ldtgrants@wcva.org.uk neu FLVC i holi ymhellach.
Y dyddiad cau ydy 18fed o Ionawr 2019 ar gyfer prosiectau sy'n dechrau ym mis Ebrill 2019

Cydnabod Gwaith Gwirfoddol Pobl Ifanc yng Nghyfarfod Blynyddol FLVC

Mae Gwobr Tom Jones am Gyfraniad Arbennig at Waith Gwirfoddol yn WOBR gaiff ei chyflwyno er mwyn cydnabod yr holl oriau mae pobl ifanc yn eu rhoi er mwyn helpu i wneud y byd yn lle gwell i fyw.

Mae FLVC yn cyflwyno'r wobwr hon mewn parch tuag at y diweddar Tom Jones OBE, fu'n Gynghorydd Cymuned a Chynghorydd Sir y Fflint am flynyddoedd maith, yn Llywodraethwr Ysgol ac yn Ymddiriedolwr a Sylfaenydd Cyngor

Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint.

Cafodd Tom ei wobrwyo gydag OBE yn 1989 am ei wasanaeth cyhoeddus parhaus. Roedd pobl yn disgrifio Tom fel gŵr bonheddig, wnaeth ymroi ei fywyd i wasanaethau cyhoeddus, gydag addysg ac iechyd da wrth wraidd popeth roedd yn ceisio ei wneud.

Gyda thristwch, bu farw Tom yn 2016. Mae FLVC yn hynod falch o allu cofio Tom ym mhob Cyfarfod Blynyddol trwy'r wobwr hon i bobl ifanc sy'n dewis rhoi o'u hamser i helpu pobl eraill.

Yn 2017, cafodd Kirsty Ann Hughes ei chydnabod am ei gwaith gyda Girlguiding Gorllewin Sir y Fflint.

Rhai sydd wedi'u canmol yn fawr yn 2018 ydy: OLIVIA COTTAM sy'n gwirfoddoli ar y Cyngor Ysgol yn Ysgol Derwen, gyda Grŵp Drama Spotlight a Grŵp 1st Kinnerton Brownie a

RICHARD ALLUM sy'n gwirfoddoli yn y siop Artisan dros Gymdeithas Dai Clwyd Alyn.



Cafodd Tlws Tom Jones ei gyflwyno i CHLOE-ANN BROOKS. Cafodd ei henwebu gan Mavis Crofts MBE ar ran Cymdeithas Preswylwyr/Tenantiaid Saltney Ferry, ac fe gaiff Chloe-Ann ei disgrifio fel 'ased i'r gymuned'. Mae hi'n helpu gyda'r holl weithgareddau gaiff eu cynnal yn y Tŷ Cymunedol. Mae'r plant yn ei haddoli a does dim yn ormod o drafferth iddi. Mae Chloe yn cynrychioli leuenctid Saltney ar y Cyngor Tref, mae hi'n gwrtais ac yn rhoi cefnogaeth ddiddiwedd i Mavis a'r preswylwyr lleol. Bu i Kirsty Ann Hughes, enillydd 2017, a chadeirydd FLVC, Marjorie Thomson, gyflwyno'r wobwr a bu i Mavis sôn am ei pharch ac edmygedd tuag at waith Chloe-Ann yn ei chymuned.

.....

Gwirfoddoli a Lles

Mae iaith lles wedi ymddangos yn raddol fel rhan o'n geirfa dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n debyg y bydd yn aros yno. Mae diwygiad gwasanaethau cymdeithasol a chynllunio at ddatblygiad cynaliadwy Llywodraeth Cymru, er enghraifft, oll yn mabwysiadu iaith lles. Y newyddion da ydy ei fod yn rhoi geirfa newydd inni gyhoeddi'n uchel ac yn eglur beth ydy manteision gwirfoddoli. Am gymaint o amser rydym ni wedi tueddu i siarad am faint o bobl sy'n gwirfoddoli, am faint o oriau ac efallai hyd yn oed beth ydy gwerth gwirfoddoli yn ariannol. A does dim o hyn wirioneddol yn mynd wrth wraidd y mater, sef y gwahaniaeth mae gwirfoddoli yn ei wneud i fywydau a chymunedau ... i les y boblogaeth yng Nghymru.

Mae lles, ar y llaw arall, a wnelo â'r bobl a'r cymunedau. Mae'n gyfoeth o fath gwbl wahanol. Mae'n "gyflwr meddwl, cymdeithasol a chorfforol iach; nid dim ond absenoldeb poen, anghysur ac anallu ydy o. Mae'n gofyn bod anghenion sylfaenol yn cael eu bodloni, bod gan bobl ymdeimlad o bwrpas, eu bod



nhw'n teimlo eu bod nhw'n gallu cyflawni nodau personol pwysig a chymryd rhan mewn cymdeithas. Caiff ei danlinellu gan gyflyrau sy'n cynnwys perthynas bersonol a chefnogol, cymunedau cadarn sy'n cynnwys pawb, diogelwch

iechyd, ariannol a phersonol da, gwaith sy'n rhoi boddhad ac amgylchedd iach a deniadol" Law yn Llaw at Iechyd Meddwl - Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru Hydref 2012.

Taith William at Wirfoddoli

Daeth William i'r Ganolfan Gwirfoddoli yn FLVC ym mis Ionawr 2018 gan ei fod eisiau helpu pobl ei gymuned. Bu iddo gofrestru i gymryd rhan ym mhrosiect gwirfoddoli gyda chefnogaeth FLVC a dyna le bu i'r daith ddechrau. Trwy raglen Camu i Fyny at Wirfoddoli, dros gyfnod o wyth wythnos cafodd gyfle i roi cynnig ar lawer iawn o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli, tu mewn ac yn yr awyr agored ar draws Sir y Fflint. Dywedodd William, "Roeddwn i wrth fy modd gyda'r cwrs. Roedd gallu cymdeithasu mewn amgylchedd digynnwrf yr union beth oedd arna' i ei angen er mwyn magu hyder. Fe wnes i lawer iawn o ffrindiau arbennig; rydw i'n dal i gysylltu gyda rhai ohonyn nhw heddiw.

Does dim byd negyddol, roeddwn i wrth fy modd gyda'r gweithgareddau a'r gwaith tîm ar y prosiect."

Ar ôl y cwrs, penderfynodd William ei fod am wirfoddoli mewn siop elusen a dewisodd Byddin yr Iachawdwriaeth yn Yr Wyddgrug. Ymunodd William â'r tîm yn Yr Wyddgrug a gweld eu bod yn gefnogol o'i anghenion a bu iddyn nhw ddarparu hyfforddiant ar gyfer ei ddyletswyddau newydd. Roedd Carol, y rheolwraig yn siop elusen Byddin yr Iachawdwriaeth, wrth ei bodd bod William wedi dewis gwirfoddoli gyda nhw. Dywedodd hi,

"Mae William yn gyfathrebwr naturiol ac yn ffynnu o ryngweithio gyda phobl, mae'r holl gwsmeriaid yn hoff iawn ohono".

Mae William bellach yn gwirfoddoli bob wythnos ac yn dweud bod "Gwirfoddoli wedi gwneud gymaint imi. Doedd gen i ddim hyder cyn i'r cwrs ddechrau; mae gwirfoddoli wedi gwneud imi ddod allan o'm cragen. Fuaswn i ddim yn siop elusen Byddin yr Iachawdwriaeth heb fod ar y cwrs yma. Mae wedi estyn fy ngorwelion ac rydw i wedi gallu ei gynnwys ar fy CV. Buaswn i'n argymhell unrhyw un i fynd ar y cwrs a rhoi cynnig ar wirfoddoli."



Os hoffech chi wybod mwy am ein prosiectau gwirfoddoli gyda chefnogaeth neu sut allwch chi wirfoddoli yn Sir y Fflint cysylltwch gyda'r tîm yn FLVC ar info@flvc.org.uk neu ffoniwch 01352 744000.

.....

Defnyddio Llwyfan Digidol Gweminar Gwirfoddoli Cymru

Dysgwch sut mae defnyddio gwefan newydd sbon Gwirfoddoli Cymru

Dyddiad: 23ain o Ionawr 2019, Amser: 14:00-15:00

Nod y gweminar:

Bydd y gweminar hwn yn eich galluogi chi i ddefnyddio gwefan newydd Gwirfoddoli Cymru at ei lawn ddefnydd.

Cynnwys:

Bydd gwefan newydd Gwirfoddoli Cymru yn cefnogi gwaith recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr. Bydd y gweminar hwn yn arddangos nodweddion y wefan newydd yn ogystal â dangos sut mae eu defnyddio.

Cewch eich gwahodd i wyllo fideo rhagarweiniol o flaen llaw, sy'n egluro rhai o nodweddion gwefan newydd Gwirfoddoli Cymru a sut mae ei ddefnyddio at ei lawn ddefnydd. Bydd sesiwn holi ac ateb yn rhan o'r gweminar.

Deilliannau dysgu:

Erbyn diwedd y gweminar bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn:

Deall prif nodweddion a gallu gwefan Gwirfoddoli Cymru

Gallu defnyddio'r wefan i greu cyfleoedd a rheoli gwirfoddolwyr

Am docyn ewch i: <https://tocyn.cymru/en/event/cda61f40-bf94-4521-a326-380b25782e20>

GDPR

Erbyn hyn gall FLVC, ar gais, eich darparu chi gyda'r pecyn cymorth mwyaf diweddar ar GDPR sydd wedi'i lunio gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys:

- Tempel rhybudd preifatrwydd
- Tempel Polisi Diogelu Data
- Tempel Asesu Effaith Diogelu Data
- Tempel polisi dod â'ch dyfais eich hun i ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr
- Canllawiau Cadw Data ar gyfer Data Adnoddau Dynol
- Rhestr wirio cydymffurfiaeth â GDPR
- Canllawiau seiliau cyfreithiol

Those interested in receiving any or all of Os oes gennych chi ddiddordeb mewn derbyn unrhyw un neu bob un o'r dogfennau hyn,

cysylltwch gyda **John Gray on 01352 744005** or **john.gray@flvc.org.uk**

.....

Wythnos Ymwybyddiaeth o Dwyll yn erbyn Elusennau (22-26 Hydref)

Yn ystod wythnos ymwybyddiaeth o dwyll bu i lawer o brif fudiadau'r sector elusennol gynhyrchu detholiad o daflenni cymorth a fideos ar bynciau yn ymwneud â thwyll a darparu cyngor defnyddiol ar sut mae diogelu eich elusen. Mae modd gweld y rhain ar-lein:

<https://www.gov.uk/government/news/charity-fraud-awareness-week-22-26-october-2018>



.....

Elusennau â gwybodaeth sydd wedi dyddio

Mae 85 elusen â'r côd post CH dal angen cwblhau eu hadroddiadau blynyddol a/neu gyflwyno eu cyfrifon i'r Comisiwn Elusennau ar gyfer 2017 neu flynyddoedd blaenorol. Fe allwch chi wirio manylion drwy fynd ar wefan y Comisiwn Elusennau

www.charitycommission.gov.uk

Amddiffyn a diogelu pobl ar gyfer elusennau ac ymddiriedolaethau

Mae'r Comisiwn Elusennau yn ddiweddar wedi ychwanegu gwybodaeth ar ddiogelu staff a gwirfoddolwyr mewn elusen, gweithio gyda phlant ac oedolion sydd mewn perygl a gweithio dramor.

<https://www.gov.uk/guidance/safeguarding-duties-for-charity-trustees/>

Mae WCVA hefyd wedi cynhyrchu tri chwrs hyfforddiant ar-lein i gefnogi mudiadau trydydd sector yng Nghymru gyda'r cyfrifoldeb pwysig hwn. Mae'r cyrsiau yn edrych ar y pynciau canlynol:

- Rhagarweiniad i ddiogelu yn y trydydd sector
- Recriwtio mwy diogel
- Swydd y Swyddog Diogelu

Mae'r cyrsiau hyn am ddim, yn gwbl ddwyieithog ac yn sensitif i gyd-destun deddfwriaethol a pholisi penodol yng Nghymru.

<https://www.wcva.org.uk/advice-guidance/third-sector-safeguarding-service>



CHARITY COMMISSION
FOR ENGLAND AND WALES

.....

Hyfforddiant Llywodraethu

Mae Swyddog Gwybodaeth a Chyngor FLVC ar gael i grwpiau o ymddiriedolwyr; aelodau pwyllgorau neu gyfarwyddwyr gysylltu ag o er mwyn darparu hyfforddiant llywodraethu. Er enghraifft:

Cofrestru Elusen

Newid i Sefydliad Corfforedig Elusennol

Swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd

Ymddiriedolwyr Elusen

Os hoffech chi fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda

John Gray on: 01352 744005 or

at: john.gray@flvc.org.uk

.....